




GOL HAFAN Y MÔR  
Heywood Lane,  
Dinbych y Pysgod/ Tenby,  
SA70 8BZ  
☎ 01834-843248

[admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk](mailto:admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk)

 Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



[ysgolhafanymor.cymru](http://ysgolhafanymor.cymru)



@hafanymortenby

17.09.2021

Annwyl rieni a gofalwyr

### **Newyddion cyffrous!**

Pan agorodd Ysgol Hafan y Môr ei drysau ym mis Medi 2016, amcangyfrifodd yr Awdurdod Lleol gyfanswm o 73 o ddisgyblion ar y gofrestr. Rydym bellach yn 214 o ddisgyblion ar y gofrestr a 41 o blant ar y gofrestr yn y Cylch Meithrin gyda rhestr aros tan ar ôl Pasg 2022!

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl rieni a gofalwyr am roi eich ffydd ynom a danfon eich plentyn/plant atom yn Ysgol Hafan y Môr. Rydym mor ddiolchgar am eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad parhaus i'r ysgol a datblygiad plant cwbl ddwyieithog. Byddwn bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau dros bob un o'r plant sy'n mynychu ein hysgol ac yn rhoi ystod eang a chyfoeth o brofiadau a chyfleoedd dysgu iddynt.

Ar ddydd Mercher, Medi 22ain, gofynnwyd i ni gymryd rhan mewn ffilm ar gyfer yr awdurdod lleol, i hyrwyddo addysg Gymraeg ac i dynnu sylw at bwysigrwydd dwyieithrwydd ac ar ddydd Gwener, Medi 24ain, rydym yn cael ein ffilmio gan gwmni ar ran Llywodraeth Cymru am yr arfer da rydym wedi'i ddangos wrth gefnogi lles a dysgu ein disgyblion yn ystod eu dychweliad i addysg yn dilyn y pandemig a'r cyfyngiadau symud.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm holl staff am eu gwaith caled diflino a'u hymrwymiad dros y 5 mlynedd diwethaf i sefydlu Ysgol Hafan y Môr, y corff llywodraethol am eu holl anogaeth a chefnogaeth ac i aelodau o'r gymuned leol am gefnogi'r fenter newydd o sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn Ninbych-y-Pysgod.

Edrychaf ymlaen at y 5 mlynedd nesaf ac i weld y cynnydd y mae ein disgyblion a'n hysgol yn ei wneud yn y cyfnod cyffrous hwn sydd o'n blaenau!

### **Seren yr Wythnos**

Llongyfarchiadau i Jasmine, Polly, Sam O'N, Nate, Florence, Caitlyn, Ava Sc a Bella P am fod yn sêr yr wythnos hon - 17.09.2021!

### **SpellBlast & NumberBlast**

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol:

#### **SpellBlast**

Bl. 2 - Betsan  
Bl. 3 - Toby  
Bl. 4 - Seren  
Bl.5 - Caitlyn  
Bl. 6 - Emme

#### **J2NumberBlast**

#### **Pencampwyr**

Phoebe  
Toby  
Noa W  
Bradley  
Dewi

## Tasgau Dysgu o Adref -17.9.2021

Ar ddydd Gwener, Medi 17eg bydd staff yn rhannu grid Dysgu Adref a fydd yn cysylltu â'r chwe maes dysgu yng Nghwricwlwm Newydd Cymru; **Teithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu, Mathemateg a rhifedd, Gwyddoniaeth a thechnoleg, Celfyddydau Mynegiannol, Dyniaethau a Lles.**

Mae'r tasgau yr hanner tymor hwn i gyd wedi'u cysylltu â'r 'Welsh Whisperer' a fydd yn ymweld â'r ysgol ddydd Mawrth, Hydref 19eg. Er mwyn i'r plant a chi, fel teuluoedd, ddysgu mwy am y gerddoriaeth 'Welsh Whisperer' a cherddoriaeth Gymreig, cefnogwch eich plentyn yn eu tasgau dysgu adref.

<https://www.welshwhisperer.cymru/>

<https://www.youtube.com/watch?v=jqqgsb-a34c>

<https://www.youtube.com/watch?v=IoJzTmrTLGU>

Bydd y grid dysgu adref i'w weld ar deilsen 'Dysgu Adref' eich plentyn, sydd yn ffeil Hwb eich plentyn (Meithrin - bl.4) ac yn Google Classroom ar gyfer disgyblion bl.5 a 6.

Bydd y plant yn ymwybodol o'r ddolen a'r tasgau, os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu ag athro dosbarth eich plentyn drwy eu cyfeiriad e-bost Hwb (e-bost gwaith).

*\*Noder efallai na fydd staff yn gallu ymateb yn ystod oriau ysgol oherwydd ymrwymadau addysgu ac ni fyddant yn ymateb ar ôl 5yh nac ar benwythnosau.*

Mr Thomas - Dosbarth Cychod -Bl.6 - [thomasj815@hwbcymru.net](mailto:thomasj815@hwbcymru.net)

Mr Hughes - Dosbarth Harbwr - Bl.5 - [hughesd382@hwbcymru.net](mailto:hughesd382@hwbcymru.net)

Miss Jones - Dosbarth Cestyll Tywod - Bl.4 - [jonesl3277@hwbcymru.net](mailto:jonesl3277@hwbcymru.net)

Miss Stephens - Dosbarth Crwban y Môr - Bl.3 - [stephensh44@hwbcymru.net](mailto:stephensh44@hwbcymru.net)

Mrs King - Dosbarth Ynys Bŷr - Bl.2 - [kings76@hwbcymru.net](mailto:kings76@hwbcymru.net)

Mrs Lewis - Dosbarth Cregyn - Bl.1 - [lewism788@hwbcymru.net](mailto:lewism788@hwbcymru.net)

Mrs Phillips - Dosbarth Sêr y Môr a Dosbarth Pysgod Chwim - Derbyn a Meithrin -

[phillipss66@hwbcymru.net](mailto:phillipss66@hwbcymru.net)

Cofiwch hefyd am y dolenni TT SpellBlast a J2Number Blast (bl. 2 -6). Mae'r gweithgareddau yn helpu eich plentyn i ddatblygu a gwella'i sgiliau sillafu a rhif. Rydym yn dathlu pencampwyr yn wythnosol yn ystod ein gwasanaeth dathlu ar ddydd Gwener.

## Rhoddion tuag at elusennau

Rydym wedi codi'r symiau canlynol ar gyfer yr elusennau isod ar ddiwedd tymor yr haf a dechrau'r tymor hwn. Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cyfraniadau drwy'r ap ParentMail.

<b>Sandy Bear</b>	<a href="https://www.sandybear.co.uk/">https://www.sandybear.co.uk/</a>	£150.00
<b>Follow your dreams</b>	<a href="https://www.followyourdreams.org.uk/index.php">https://www.followyourdreams.org.uk/index.php</a>	£100.00
<b>LATCH (Jeans4Genes)</b>	<a href="https://www.latchwales.org/">https://www.latchwales.org/</a>	£104.00 <small>*hyd at 12.30yp heddiw</small>

Cofion gorau a diolch i chi i gyd am eich amynedd a'ch cydweithrediad parhaus

Mrs Griffiths  
Head teacher

Wythnos yn cychwyn: 20.09.2021		Week commencing: 20.09.2021	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>
21.09.21 <u>Dydd</u> <u>Mawrth</u>	<u>Gwers Ffidil, Gitar a Chwythbrennau</u> - Miss Phillips Bl.3 - 6	21.09.21 <u>Tuesday</u>	<u>Violin, Guitar and Woodwind lessons</u> - Miss Phillips Yrs. 3 - 6
22.09.21 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Gwersi recorder / offer taro i ddsbarthiadau Crwban y Môr, Cestyll Tywod Harbwr or Cychod</u>	22.09.21 <u>Wednesday</u>	<u>Recorder / Percussion lessons for dosbarthiadau Crwban y Môr, Cestyll Tywod Harbwr or Cychod</u>
22.09.21 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Gwersi nofio i ddsbarth Mr Thomas (Cychod).</u> Rhaid cofio gwisg nofio, tywel, het a gogls.	22.09.21 <u>Wednesday</u>	<u>Swimming lessons for Mr Thomas' class (Cychod).</u> Remember to bring your swimming costume, towel, swimming hat and goggles.
22.09.21 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Mercher Mwdlyd</u> -Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth <u>Pysgod Chwim, Sêr y Môr, Cregyn neu Ynys Bŷr</u>	22.09.21 <u>Wednesday</u>	<u>Muddy Wednesday</u> - Please remember that your child must wear outdoor clothes today if he/she is in <u>Pysgod Chwim, Sêr y Môr, Cregyn or Ynys Bŷr class</u>
23.09.21 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Gwersi Pres</u> - Bl.4 - 6 (Mr Barrett)	23.09.21 <u>Thursday</u>	<u>Brass lessons</u> - Mr Barrett Yrs. 4 - 6
23.09.21 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Gwersi Soddgrwth</u> - Bl.3 - 6 (Mrs Harries)	23.09.21 <u>Thursday</u>	<u>Cello lessons</u> - Mrs Harries Yrs. 3 - 6
23.09.21 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i fl. 3 - 6 ( Crwban y Môr, Cestyll Tywod Harbwr or Cychod)</u> <b>Rhaid i bob</b> plentyn wisgo cit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	23.09.21 <u>Thursday</u>	<u>PE lessons for Years 3-6 (Crwban y Môr, Cestyll Tywod Harbwr or Cychod)</u> <b>All</b> pupils <b>must</b> wear PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
24.09.21 <u>Dydd</u> <u>Gwener</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i Meithrin, Derbyn Bl.1 a 2</u> <b>Rhaid i bob</b> plentyn (dosbarth Meithrin, Derbyn, Bl. 1 + 2) wisgo cit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	24.09.21 <u>Friday</u>	<u>PE lessons for all pupils in Nursery, Reception Yrs. 1 &amp; 2</u> <b>All</b> pupils in Nursery, Reception, yrs.1 & 2 <b>must</b> wear PE kit and suitable footwear on the day that they have PE lessons.
24.09.21 <u>Dydd</u> <u>Gwener</u>	<u>Dysgu Allanol Gwener</u> -Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth <u>Crwban y Môr, Cestyll Tywod Harbwr or Cychod</u>	24.09.21 <u>Friday</u>	<u>Outdoor Learning Friday</u> Please remember that your child must wear outdoor clothes today if he/she is in <u>dosbarth Crwban y Môr, Cestyll Tywod Harbwr or Cychod</u>

### Dyddiadau yn y Dyfodol

Mae'r holl ddyddiadau yn y dyfodol ar galendr gwefan yr ysgol. Sicrhewch eich bod yn gwirio'r calendr yn rheolaidd ar gyfer gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

**\*\*Mae dyddiadau yna yn cynnwys cyngerdd Nadolig a chinio Nadolig.\*\***

<http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/>

## Gwybodaeth - Information

### Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau'r ysgol)

### Sylwch fod y rhain wedi'u diweddarau a'u bod ar galendr gwefan yr ysgol

<http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/>

Hanner tymor	25.10.2021 - 29.10.2021
Ysgol ar gau i staff a disgyblion	20 + 21.12.2021
Gwyliau'r Nadolig	22.12.2021 - 3.01.2022
Hanner Tymor	21.2.2022 - 25.2.2022
Gwyliau Pasg	11.04.2022 - 22.04.2022
HMS (Ysgol ar gau i ddisgyblion)	25.04.2022
Hanner Tymor	30.05.2022 - 03.06.2022
HMS (Ysgol ar gau i ddisgyblion)	15.07.2022 + 18.07.2022
Gwyl y Banc (Ysgol ar gau i staff a disgyblion)	19.07.2022

### INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:-

The Council's website at:- [www.pembrokeshire.gov.uk/alerts](http://www.pembrokeshire.gov.uk/alerts)

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: <https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/>

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-

[www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil](http://www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil)

[www.twitter.com/Pembrokeshire](http://www.twitter.com/Pembrokeshire)

### Gwyliau / Absenoldeb

Hoffwn atgoffa pob rhiant am y pwysigrwydd o adrodd absenoldeb eich plentyn. Os yw eich plentyn/plant yn absennol oherwydd salwch, **mae'n rhaid rhoi gwybod amdano drwy ddanfon nodyn Absenoldeb yn ParentMail cyn 9yb ar ddiwrnod yr absenoldeb.** Os ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu ofyn am absenoldeb oherwydd rheswm arall heblaw salwch, **rhaid i chi lenwi'r ffurflen electronig (dolen isod) o leiaf 10 diwrnod cyn yr absenoldeb arfaethedig.**

Os nad yw plentyn wedi'i gofnodi fel plentyn sy'n bresennol yn yr ysgol, erbyn 9.25am yna bydd eich plentyn yn cael ei nodi fel N - dim rheswm dros absenoldeb. Mae hyn yn unol â pholisi presenoldeb a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. Mae'r Swyddogion Lles Addysg Cyngor Sir Penfro yn dechrau craffu ar gofrestrau 20 munud ar ôl cau'r gofrestr a bydd yn cysylltu â'r ysgol a Thîm Diogelu'r Awdurdod Lleol gan fod eich plenty wedi'i nodi fel, plentyn "coll" ac mae hyn yn cael eu hystyried yn fater diogelu.

Dolen gyswllt i'r ffurflen "Gwyliau / Cais am Absenoldeb":

[https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3nxpioDQn1lucxiu98NkxFUREswUDhZQVvk2WkdVS0o3QkZNRkRHRjVJQi4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3nxpioDQn1lucxiu98NkxFUREswUDhZQVvk2WkdVS0o3QkZNRkRHRjVJQi4u)